O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1695 (Cy. 220)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 46 (Llangyfelach), Abertawe i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *28 Mehefin 2012*

Yn dod i rym *9 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Gorffennaf 2012 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 46 (Llangyfelach), Abertawe i Gyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 9 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Mehefin 2012

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad corfforol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach) hyd at drwyniad corfforol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 46 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 47.

Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad corfforol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer) hyd at drwyniad corfforol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 48 (yr Hendy), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 47 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 48.

Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad corfforol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 48 (yr Hendy) hyd at ei chyffordd â chylchdro'r A48 wrth Gyffordd 49 (Pont Abraham), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 48.

Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'i chyffordd â chylchdro'r A48 wrth Gyffordd 49 (Pont Abraham) hyd at drwyniad corfforol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 48 (yr Hendy), gan gynnwys y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 48.

Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad corfforol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 48 (yr Hendy) hyd at drwyniad corfforol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 48 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 47.

Y darn o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad corfforol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 47 (Penlle'r-gaer) hyd at drwyniad corfforol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46 (Llangyfelach), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 47 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 46.